Hwb

Dysgu Digidol i Gymru

Hwb yw platform dysgu digidol Cymru. Mae'n galluogi dysgwyr ac athrawon yng Nghymru i ddod o hyd i adnoddau a theclynnau digidol wedi'u hariannu'n ganolog mewn unrhyw leoliad, ar unrhyw adeg, ac o unrhyw ddyfais.

Adnoddau
Mae degau ar filoedd o adnoddau dwyieithog ar gael ar Hwb i'w defnyddio wrth addysgu a dysgu.

Dosbarthiadau Hwb
Gall athrawon fynd ati'n hawdd i greu Dosbarthiadau i ddysgwyr ymuno â nhw a rhyngweithio â'i gilydd drwy gydweithio mewn amgylchedd diogel.

Just2easy
Cyfres gyfan o declynnau creadigol a hyblyg ar-lein i ddisgyblion o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 3.

Hwb+
Platfform dysgu unigol ar gyfer pob ysgol sy'n cynnwys teclynnau fel llyfrgelloedd o ddogfennau, lluniau a fideos, arolygon, trafodaethau, blogiau a wicis.

Rhestri Chwarae
Teclyn i ddefnyddwyr gasglu ynghyd adnoddau amlgyfryngol o'u ffeiliau ac o'r we i greu Rhestr Chwarae. Gall athrawon ychwanegu cwestiynau cwis a'u rhannu fel aseiniadau i ddysgwyr eu cwblhau gartref.

Diogelwch ar-lein
Cewch y newyddion, yr adnoddau a'r digwyddiadau diweddaraf am ddiogelwch ar-lein ar y Parth Diogelwch Ar-lein. Dyma adnoddau i rieni a gofalwyr sy'n cynnig cyngor ar sut i ymdrin â gemau, faint o amser i'w dreulio o flaen sgrin, cyfryngau cymdeithasol a llawer mwy.

Office 365
Bydd defnyddwyr Hwb yn cael cyfrif Office 365 sy'n golygu y gallant ddefnyddio teclynnau Microsoft Office gan gynnwys e-bost, drwy unrhyw borwr ar y rhyngrwyd.

Encyclopaedia Britannica
Mae Encyclopaedia Britannica yn cynnig miloedd o erthyglau, delwedau, fidoes a chlipiau sain proffesiynol yn ddiogel ar-lein.

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ewch i hwb.wales.gov.uk

neu gallwch ein dilyn ar Twitter @HwbNews